



# Dal tipiwr anghyfreithlon

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn pwysleisio pwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn canolbwyntio ar broblem gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon a'r effaith y gall gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon ei chael ar yr amgylchedd, y gymuned leol a'r economi.



Nod Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu edrych ar ôl aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd er mwyn gwella lles Cymru, a darparu dyfodol gwell i bawb.

## Amcanion

Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn bydd y dysgwyr yn gallu:

- Egluro beth yw gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon
- Rhestru rhesymau pam mae tipio anghyfreithlon yn digwydd
- Categorioidio eitemau'r cartref sy'n cael eu gwaredu'n anghyfreithlon yn aml

## Hyd y sesiwn

1 awr

## Maes cwricwlwm

ADCDF  
Daearyddiaeth

## Lleoliad

Tiroedd gosod

# Cysylltiadau â'r cwricwlwm

## CA2 ADCDF

### Defnyddio a gwastraffu

Gall gwastraff achosi llygredd  
O ble y mae'r pethau y mae pobl yn eu defnyddio  
yn dod ac i ble maen nhw'n mynd

## CA2 Daearyddiaeth

### Lleoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau

Nodi a lleoli lleoedd ac amgylcheddau gan  
ddefnyddio globau, atlasau a mapiau

### Astudiaeth

Byw yn fy mynd: gofalu am lleoedd ac amgylcheddau a  
phwysigrwydd bod yn ddinesydd byd-eang

## CA3 ADCDF

### Defnyddio a gwastraffu

Gwerthfawrogi'r camau sydd eu hangen i leihau eu  
hól-troed ecolegol eu hunain ac i leihau gwastraff

## CA3 Daearyddiaeth

### Astudiaeth

Dinasyddion yfory: materion yng Nghymru a'r byd  
ehangach sy'n ymwneud â byw mewn modd  
cynaliadwy a chyfrifoldebau bod yn ddinesydd  
byd-eang

## Offer ac adnoddau

- Cofnod sain o'r adroddiad (gellir ei lawrlwytho)
- Llythyr Tystiolaeth
- Taflen Adrodd: Digwyddiad
- Taflen Adrodd: Tystiolaeth

### Bydd angen y canlynol arnoch hefyd:

- 3 x map o'r safle gyda lleoliad y tipio anghyfreithlon wedi'i farcio arno
- 3 llond bag o sbwriel
- Menig
- Clipfyrdau a phensiliau

## Beth i'w wneud

### Gwaith paratoi cyn y gweithgaredd

- Mae'r gweithgaredd hwn yn gofyn i chi gasglu 3 llond bag o wastraff y gellir eu cuddio mewn gwahanol fannau. Rhaid i bob bag gynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau gan gynnwys plastig, metel a phapur. Mae angen i bob eitem fod yn lân a heb ymylon miniog.
- Rhowch y llythyr tystiolaeth sy'n cynnwys enw "James Richards" ym mhob bag fel y gellir defnyddio'r llythyr hwn fel tystiolaeth pan fydd y grŵp yn ceisio darganfod o le gallai'r sbwriel fod wedi dod. Efallai y byddwch hefyd am gynnwys tystiolaeth ychwanegol fel cardiau pen-blwydd neu Nadolig wedi eu cyfeirio at James.
- Cyn dechrau'r gweithgaredd cuddiwch y tri llond bag o wastraff mewn gwahanol leoliadau ar y safle, gan farcio lleoliad un bag ar bob map.

### Gweithgaredd

- Gofynnwch i'r grŵp os ydynt yn gwybod beth yw tipio anghyfreithlon? Esboniwch beth yw tipio anghyfreithlon. Holwch y grŵp a ydynt wedi gweld gwastraff erioed lle na ddylai fod wedi bod? Beth oedd y gwastraff? Ble roedd e?
- Esboniwch fod adroddiad wedi dod i law bod gwastraff wedi cael ei waredu ar eich safle a bod angen iddynt helpu i ymchwilio i'r digwyddiad.
- Rhannwch yn 3 grŵp, gan roi clipfwrdd, taflen adrodd digwyddiad, taflen tystiolaeth a menig i bob grŵp.
- Dywedwch wrth bob grŵp am ysgrifennu eu henwau neu enw ar gyfer y grŵp yn y blwch "Enw Grŵp" ar y daflen adrodd digwyddiad.
- Esboniwch y byddwch yn chwarae'r alwad ffôn a adroddodd am y digwyddiad tipio anghyfreithlon. Wrth i'r recordiad chwarae bydd yn rhaid i bob grŵp wrando'n ofalus ar y neges a defnyddio gwybodaeth o'r alwad ffôn i lenwi'r daflen adrodd digwyddiad. Yn y blwch "Amser" dylai'r grwpiau nodi'r amser y clywsant y neges.

- Chwaraewch y recordiad sain o'r adroddiad.
- Cyn mynd ymhellach trafodwch:

Beth yw'r peryglon posibl wrth ymchwilio i waredu gwastraff yn anghyfreithlon? (Gallai eitem fod yn finiog, yn frwnt, mae'n bosib na fyddwn yn gwybod beth ydyw neu o ble mae wedi dod).

Esboniwch na ddylent ymchwilio i wastraff a waredu yn anghyfreithlon adref, ond yn hytrach rhoi gwybod i'w hawdurdod lleol. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch pwy ddylai gael gwybod am achosion o waredu gwastraff yn anghyfreithlon ar gael ar wefan Tacllo Tipio Cymru [www.flytippingactionwales.org/en/report-incident](http://www.flytippingactionwales.org/en/report-incident)

- Esboniwch fod yna 3 lleoliad ar wahân lle mae sbwriel wedi cael ei adael yn anghyfreithlon a rhowch fap i bob grŵp sy'n dangos iddyn nhw ble i chwilio.
- Gan ddefnyddio eu map dylai pob grŵp ddod o hyd i'w safle tipio anghyfreithlon.
- Yn ddiabynnol ar y tywydd, gallant agor y bagiau naill ai tu allan neu gallant fynd â nhw i mewn er mwyn ymchwilio ymhellach.
- Gan wisgo menig dylai'r grŵp archwilio'r bag llawn gwastraff. Wrth wneud hynny, dylent lenwi'r daflen adrodd tystiolaeth. Fel rhan o hyn bydd angen iddynt ddioli gwastraff i wahanol gategoriâu fel plastig, metel a phapur, a chofnodi'r deunydd yn y bag. Dylent hefyd wneud nodyn o unrhyw dystiolaeth a allai awgrymu o le mae'r gwastraff wedi dod. Ar y pwynt hwn, dylai'r grwpiau ddod o hyd i'r llythyr a blannwyd gydag enw a chyfeiriad.

- Trafodwch beth mae'r dystiolaeth hon yn ei ddangos, a beth ddylai'r camau nesaf fod pe byddent yn parhau â'r ymchwiliad.
- Dylent benderfynu y byddai angen iddynt fynd i'r cyfeiriad i siarad â James Richards a chadarnhau mai ei wastraff ef oedd hwn. Yna byddai angen iddynt holi James Richards i gael gwybod ai ef ei hun wnaeth waredu'r gwastraff ar y safle, neu a wnaeth e roi ei wastraff i rywun arall, ac os felly pwy?
- Wrth roi gwastraff i gwmni i'w waredu ar eich rhan, rhaid i chi sicrhau bod ganddynt drwydded addas sy'n eu galluogi nhw i gael gwared ar y gwastraff.
- Gallwch gynnal trafodaeth bellach ar beth ddylai fod wedi digwydd i'r eitemau hyn? Pam fyddai rhywun wedi gadael gwastraff ar y tir? A all y gwastraff gael ei ailgylchu / aildddefnyddio? A yw'r dysgwyr yn ailgylchu'r eitemau hyn adref?
- Trafodwch sut mae'n gwneud iddynt deimlo wrth glywed bod gwastraff wedi ei adael yma?

## Addasu ar gyfer anghenion/ galluoedd arbennig

Llai abl:

- Ymchwilio i'r digwyddiad fel grŵp mwy gyda mwy o gymorth gan arweinydd y grŵp.

Mwy abl a thalentog:

- Ar ôl dosbarthu mapiau yn dangos lleoliad y gwastraff sydd wedi ei waredu'n anghyfreithlon, gofynnwch i'r grŵp amcangyfrif y pellter i'r gwastraff.

## Gweithgaredd dilynol / ymestyn

Rhowch gynnig ar weithgareddau gwastraff eraill:

- *Sbwriel Hirhoedlog*
- *Clipiau papur newydd*
- *Gêm geirfa gwastraff a sbwriela*
- *Tair 'C' sbwriela a thipio anghyfreithlon*
- *'Minesweeper' crwban*
- *A wyddoch chi?*



Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall, er enghraifft, mewn print bras neu mewn iaith arall, cysylltwch ag: [ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) **0300 065 3000**

[www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)

- Atgoffwch nhw i beidio ag ymchwilio eu hunain os ydynt yn gweld gwastraff wedi ei waredu'n anghyfreithlon, ond yn hytrach roi gwybod i'w cyngor lleol.
- Esboniwch i'r grŵp os cewch chi eich dal yn tipio'n anghyfreithlon, gallwch gael dirwy o hyd at £50,000 a hyd yn oed eich anfon i'r carchar.

## Awgrymiadau am gwestiynau allweddol

- Pa fath o wastraff y gallech ddarganfod sydd wedi ei waredu'n anghyfreithlon?
- Pam ydych chi'n meddwl bod pobl yn tipio'n anghyfreithlon?
- Beth allai ddigwydd i bobl sy'n gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon?
- Beth ddylech chi ei wneud os byddwch yn dod o hyd i unrhyw sbwriel sydd wedi ei waredu'n anghyfreithlon?

## Gwybodaeth Ychwanegol

Mae sefydliadau fel Taclo Tipio Cymru yn bodoli er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth a brwydro yn erbyn gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon a all gael effaith niweidiol ar gymunedau ac ar yr amgylchedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol a'r Heddlu yn aml yn ymwneud ag ymchwilio i ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon; gall unrhyw un sy'n cael ei ddal yn gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon gael dirwy o hyd at £50,000 a hyd yn oed ei anfon i'r carchar.

Mae rhagor o wybodaeth am waredu gwastraff yn anghyfreithlon i'w gweld ar wefan Taclo Tipio Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am ble i roi gwybod am ddigwyddiad neu ddod o hyd i gludwr gwastraff trwyddedig

[www.flytippingactionwales.org/cy](http://www.flytippingactionwales.org/cy)



Mae coetiroedd Llywodraeth Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®. Welsh Government woodlands have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®.



Argraffwyd ar bapur Revive Offset wedi'i ailgylchu 100%. Printed on Revive offset 100% recycled paper.